# Iddyn nhw

## Pecyn Adnoddau Addysg

Llywodraeth Cymru
Welsh Government





# Cwricwlwm i Gymru

Mae'r cynnwys yn berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig: 2.6.3 – Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

# Nodau

**I blant allu:**

- deall bod torri glaswellt yn llai aml a chaniatáu i flodau gwyllt dyfu yn helpu bywyd gwyllt.
- dysgu y gall ardaloedd tebyg i ddôl ddarparu bwyd a lloches i amrywiaeth eang o greaduriaid.

# Geiriau allweddol

- Pryfed peillio
- Paill
- Neithdar
- Hadau
- Pryfed
- Infertebratau/bwystfilod bach
- Mamaliaid
- Amffibiaid
- Ymlusgiaid
- Adar
- Cynefin
- Gwe fwydydd
- Cynhyrchydd
- Ysydd
- Ysglyfaethwr
- Ysglyfaethus
- Dôl



OGL © Hawlfraitnt y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51998, ISBN digidol 978-1-80633-100-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Nodiadau Addysgu

Efallai y bydd plant yn gweld bod glaswellt yn cael ei adael i dyfu mewn ardaloedd lle maen nhw'n chwarae. Mae awdurdodau lleol, Cynghorau Cymuned a Thref, a sefydliadau eraill sy'n rheoli glaswelltir cyhoeddus ledled ein gwlad yn newid y dull o reoli glaswelltir mewn parciau a mannau gwyrdd eraill. Un o'r rhesymau pam maen nhw'n gwneud hyn yw oherwydd ein bod ni mewn Argyfwng Natur. Mae 1 o bob 6 rhywogaeth a aseswyd yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Efallai y bydd hyn yn peri gofid i blant iau, felly trafodwch hyn yn sensitif a phwysleisio'r canlyniadau cadarnhaol y gallwn ni eu cyflawni trwy gefnogi natur.

Byddai defnyddio'r pecyn hwn ochr yn ochr ag ymweliadau maes i gynnal gweithgareddau ymarferol fel arolwg natur yn datblygu sgiliau arsylwi ac amynedd dysgwyr. Mae dysgu yn y byd go iawn yn rhoi mwy o ddealltwriaeth i ddysgwyr o fyd natur a phwysigrwydd ei amddiffyn. Ar ddiwedd y pecyn mae rhestr o ddolenni defnyddiol i'ch helpu i wneud hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r ymgyrch 'Iddyn nhw' er mwyn dangos pa mor bwysig yw mannau gwyrdd a sut gallan nhw greu cynefin gwell iddyn 'Nhw': infertebratau, adar, mamaliaid bach, amffibiaid ac ymlusgiaid. Bydd y taflenni lliwio a'r gweithgareddau hyn yn helpu plant i ddysgu am rai o'r anifeiliaid a'r planhigion a allai fod yn byw a bwydo yn yr ardaloedd hyn. Mae'r taflenni lliwio ar dudalennau 29-34.

Wrth gynnal gweithgareddau sy'n defnyddio testun, ystyriwch anghenion dysgu ychwanegol. Gallwch leihau cyferbyniad a llachareddd trwy brintio ar bapur lled-wyn.

**Mae taflenni lliwio 1 a 2** yn dangos planhigion, infertebratau ac adar. Efallai y bydd rhai ardaloedd â glaswellt hirach tebyg i ddôl yn cynnwys rhywogaethau prin o blanhigion, ond bydd gan y rhan fwyaf flodau gwyllt cyffredin fel blodyn ymenyn, llygad y dydd a dant y llew. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y taflenni lliwio a dylai plant allu eu hadnabod. Efallai y bydd plant yn adnabod infertebratau fel y fuwch goch gota. Efallai y bydd eraill fel y chwilen filwrol goch gyffredin yn llai cyfarwydd, ond mae'r chwilod coch trawiadol hyn i'w gweld ar flodau fel llygaid y dydd. Gallwch adael i blant ddefnyddio eu dychymyg i liwio'r anifeiliaid a'r planhigion yn hytrach na'u lliwio fel maen nhw mewn gwirionedd.

**Mae taflenni lliwio 3 a 4** yn dangos planhigion, infertebratau, adar, amffibiad, ymlusgiad a mamal. Maen nhw hefyd yn dangos nad yw bywyd yn gyfyngedig i'r hyn allwn ni ei weld uwchben y ddaear ond bod haenau pridd yn darparu lle i anifeiliaid fyw a phorthi hefyd.

**Mae taflenni lliwio 1-4** yn reit fanwl. Gall plant ddewis canolbwyntio ar liwio rhannau o'r llun maen nhw'n ei hoffi fwyaf fel pryfed, anifeiliaid neu flodau.

**Nid yw taflenni lliwio 5-6** mor fanwl. Mae yna fannau gwyn gwag er mwyn i'r plant dynnu eu lluniau eu hunain o anifeiliaid neu blanhigion maen nhw wedi dysgu amdanynt yn y gweithgareddau neu rai y maen nhw wedi'u gweld ar deithiau i'r parc neu helfa chwilod.



### Taflen lliwio 1 (ar draws):

**Planhigion:** glaswellt, blodyn ymenyn, llygad y dydd, dant y llew a phlanhigion blodeuol eraill

**Infertebratau:** glöyn byw, gwyfyn, pry hofran, sioncyn y gwair, buwch goch gota, chwilen filwrol goch gyffredin, chwilen goesdew y blodau, chwilen waetgoch, cacynen a morgrug

**Aderyn:** cudyll coch





Gweler t29 am daflen lliwio maint llawn.

### Taflen lliwio 2 (ar i fyny):

**Planhigion:** glaswellt, blodyn ymenyn, llygad y dydd, dant y llew a phlanhigion blodeuol eraill

**Infertebratau:** glöyn byw, gwyfyn, pry hofran, sioncyn y gwair, buwch goch gota, chwilen filwrol goch gyffredin, chwilen goesdew y blodau, chwilen waetgoch, cacynen a morgrug

**Aderyn:** cudyll coch a nico




Gweler t30 am daflen lliwio maint llawn.

### Taflen lliwio 3 (ar draws):

**Planhigion:** glaswellt, blodyn ymenyn, llygad y dydd, dant y llew a phlanhigion blodeuol eraill

**Infertebratau:** glöyn byw, gwyfyn, pry hofran, sioncyn y gwair, buwch goch gota, chwilen filwrol goch gyffredin, chwilen goesdew y blodau, chwilen waetgoch, cacynen, morgrug (gyda nyth ac wyau) a mwydyn/pry genwair

**Aderyn:** cudyll coch

**Amffibiad:** broga

**Ymlusgiad:** madfall

**Mamal:** draenog





Gweler t31 am daflen lliwio maint llawn.

## Taflen lliwio 4 (ar i fyny):

**Planhigion:** glaswellt, blodyn ymenyn, llygad y dydd, dant y llew a phlanhigion blodeuol eraill

**Infertebratau:** glöyn byw, gwyfyn, pry hofran, sioncyn y gwair, buwch goch gota, chwilen filwrol goch gyffredin, chwilen goesdew y blodau, chwilen waetgoch, cacynen, morgrug (gyda nyth ac wyau) a mwydyn/pry genwair

**Aderyn:** gwennol
**Amffibiad:** broga
**Ymlusgiad:** madfall
**Mamal:** draenog




Gweler t32 am daflen lliwio maint llawn.

## Taflen lliwio 5 (ar draws):

**Planhigion:** glaswellt, blodyn ymenyn, llygad y dydd

**Infertebratau:** glöyn byw, pry hofran, buwch goch gota, chwilen filwrol goch gyffredin, chwilen goesdew y blodau, chwilen waetgoch, cacynen, sioncyn y gwair a mwydyn/pry genwair

**Aderyn:** cudyll coch
**Amffibiad:** broga
**Mamal:** draenog





Gweler t33 am daflen lliwio maint llawn.

## Taflen lliwio 6 (ar i fyny):

**Planhigion:** glaswellt, blodyn ymenyn a dant y llew

**Infertebratau:** glöyn byw, gwyfyn, sioncyn y gwair, buwch goch gota, chwilen goesdew y blodau, cacynen a mwydyn/pry genwair

**Aderyn:** gwennol
**Ymlusgiad:** madfall
**Mamal:** draenog




Gweler t34 am daflen lliwio maint llawn.

# Templedi cardiau post


Gall cardiau post fod yn ffordd ddefnyddiol o gyfathrebu syniadau gyda ffrindiau, rhieni ac aelodau eraill o'r teulu. Gall sgiliau ysgrifennu gynnwys defnyddio iaith ddisgrifiadol i roi darlun o olygfa neu deimlad. Gellir defnyddio cardiau post i ddweud wrth bobl pam mae rhywbeth yn bwysig. Gellir eu defnyddio fel dull ymgyrchu i roi gwybod i bobl neu sefydliadau sut rydych chi'n teimlo am fater penodol.

Rydym wedi datblygu nifer o dempledi cardiau post 'Iddyn Nhw'. Argraffwch y **templedi gefn wrth gefn (ar y ddwy ochr)** ar gerdyn ysgafn fel bod y lluniau ar un ochr a'r ysgrifen ar y llall.

Mae gan rai templedi ddarluniau du a gwyn y gall y plant eu lliwio. Mae eraill yn wag yn bennaf, felly gall plant dynnu lluniau a lliwio eu lluniau eu hunain. Gallai'r rhain fod o anifeiliaid neu blanhigion y maent wedi dysgu amdanynt neu eu gweld mewn ardaloedd glaswelltog neu'n gysylltiedig â'r testun y maent yn ei ysgrifennu.

Ar gyfer cefn y cerdyn post, helpwch y plant benderfynu i bwy y byddant yn rhoi eu cerdyn post. Dangoswch sut i ysgrifennu cyfeiriad ar yr ochr dde.

Templedi cardiau post gwag




Gweler t35-36 am dempledi cardiau post maint llawn


- Enw
- Enw'r tŷ neu rif a'r stryd
- Pentref/tref/dinas
- Sir
- Cod post

Ar gyfer y neges ar yr ochr chwith, gofynnwch am syniadau gan y plant o bwyntiau y maent am eu gwneud am fywyd gwyllt sy'n byw mewn ardaloedd glaswelltog. Trafodwch sut i wneud eu brawddegau yn fyr ac yn syml. I ffrindiau a theulu, gall yr arddull ysgrifennu fod yn anffurfiol a doniol. I sefydliadau a'r cyhoedd, efallai y bydd angen i'r ysgrifennu fod yn fwy ffurfiol a gwneud pwyntiau'n glir ac yn gryno.

Er mwyn sicrhau y bydd eu hysgrifennu yn ffitio yn y cerdyn post, dylai plant ddrafftio eu testun ar bapur cyn trosglwyddo'r fersiwn derfynol i'w cerdyn post.

Pan fyddant wedi gorffen, gallant ychwanegu eu henw eu hunain ar ôl 'Crëwyd gan/Designed by:'.

Templedi cardiau post darlun du a gwyn




Gweler t37-38 am dempledi cardiau post maint llawn

# Math o destun esboniadol

1. Gallwch ddefnyddio 'Iddyn nhw: Yn newid y drefn torri glaswellt er lles natur – Testun Esboniadol' i osod y cyd-destun ar gyfer y gweithgareddau eraill ac egluro manteision cadarnhaol newid y ffordd rydyn ni'n rheoli mannau gwyrdd.
2. Ar gyfer plant hŷn, gallwch hefyd ei ddefnyddio i ddadansoddi testun esboniadol.

**Pwyntiau iaith allweddol:**

- Pwrpas y testun: Esbonio pam mae'n bwysig newid sut rydyn ni'n torri glaswellt.
- Strwythur y testun: cyflwyniad, cyfres o baragraffau thematig a chasgliad.
- Defnyddio enwau a grwpiau enwau i gynrychioli pethau e.e. 'sefydliadau, parciau, blodau, hadau, glaswellt byr, bywyd gwyllt, ymylon ffyrdd, blodau gwyllt, paill, cacwn, gwenyn unig' ac ati.
- Defnyddio berfau a grwpiau berfau i gynrychioli'r hyn mae pethau'n ei wneud, beth sy'n digwydd a pherthnasoedd e.e. 'bwydo ar, casglu, mynd, porthi, symud, i wneud, cynnwys, tyfu, dibynnu ar, ddim yn gallu cynhyrchu ac ni fyddai' ac ati.
- Defnydd o amser presennol ar gyfer datganiadau ffeithiol e.e. 'Mae gan flodau gwyllt baill a neithdar.'
- Defnyddio brawddegau gweithredol syml e.e. 'Mae hadau yn tyfu'n blanhigion newydd.'
- Defnyddio brawddeg dau gymal i lunio dadleuon rhesymegol:
  - Gyda chysyllteiriau, e.e. 'Maen nhw'n gadael i'r blodau dyfu am fwy o amser fel y gallan nhw wneud hadau.' (rheswm) ac 'Efallai fod glaswellt byr yn edrych yn dwt a thaclus ond nid yw'n dda iawn i fywyd gwyllt.' (cyferbynnu).
  - Heb gysyllteiriau, e.e. 'Mae llawer o blanhigion angen peillio i wneud hadau.' (rheswm) ac 'Er mwyn helpu bywyd gwyllt, gallwn newid y ffordd rydyn ni'n torri glaswellt.' (pwrpas).
- Defnyddio ymadroddion arddodiadol i ddangos dibyniaeth e.e. 'Heb bryfed peillio, dyw'r planhigion ddim yn gallu cynhyrchu hadau'.
- Defnyddio cymalau amodol i ffurfio cysylltiadau:
  - Dilyniant e.e. 'Pan fydd pryfed peillio yn bwydo ar neithdar maen nhw'n casglu paill …'
  - Canlyniad e.e. 'Os byddwn ni'n parhau i newid … bydd blodau gwyllt yn cynyddu …'



3. Gallwch hefyd greu ymarfer llenwi bylchau drwy hepgor detholiad o ferfau allweddol neu rannau ymadrodd o'r testun e.e

**casglu**
**gadael**
**torri**
**newid**

Mae llawer o Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill ledled Cymru yn _______ y ffordd maen nhw'n gofalu am laswelltiroedd yn ein parciau ac ar ymylon ffyrdd. Maen nhw'n _______ i'r blodau dyfu am fwy o amser fel y gallan nhw gynhyrchu hadau. Maen nhw'n _______ ac yn _______ 'r glaswellt yn ddiweddarach yn yr haf.

**rhai bach**
**dôl**
**glaswellt**
**fwystfilod bach**
**wyau**
**lloches**
**infertebratau**

Mae ______ hir a blodau gwyllt yn rhoi _______ i bryfed ddodwy _______ ac i'w ______ fwydo a datblygu. Mae infertebratau neu _______ eraill yn hoffi byw mewn neu o dan borfa hirach hefyd. Gall 1,400 a mwy o rywogaethau o ________ fyw mewn _______.



# Testunau a gweithgareddau darllen a deall

Mae yna ddau destun darllen a deall. Mae'r cyntaf, 'Iddyn nhw – cadwyn fwyd y ddôl', yn destun byr a syml sy'n disgrifio cadwyni bwyd mewn dolydd.

Mae'r ail destun, 'Iddyn nhw – gwe fwydydd y ddôl', yn destun mwy cymhleth, hirach. Mae'n disgrifio'r anifeiliaid sydd i'w cael mewn cynefin dolydd a'r math o we fwydydd y mae'n ei chynnal. Bydd hyn yn helpu plant i ddeall sut mae planhigion ac anifeiliaid yn cysylltu â'i gilydd.

Dewiswch pa destun sydd fwyaf addas i'r plant. Fel arall, dechreuwch gyda'r testun darllen a deall cyntaf ac ymestyn dysgu plant trwy symud ymlaen i'r ail.

- Esboniwch i'r plant pam mae mwy o ardaloedd tebyg i ddôl yn cael eu creu a sut bydd hyn yn helpu bywyd gwyllt.
- Darllenwch drwy'r testun darllen a deall gyda'r plant.
- Gweithiwch mewn grwpiau i drafod ac ateb y cwestiynau.
- Helpwch y plant i gwblhau'r gweithgaredd cadwyn fwyd neu we fwydydd.
- Gallwch hefyd addasu'r testun i wneud ymarferion llenwi bylchau fel yr enghreifftiau o'r Math o Destun Esboniadol uchod.

## Posau croesair

Mae pos croesair ar gyfer pob un o'r ddau destun darllen a deall.

## Chwiliadur

Mae yna ddau chwiliadur. Mae'r cyntaf yn ymwneud ag anifeiliaid y ddôl. Mae'r ail ar eiriau allweddol sy'n gysylltiedig â dolydd. Mae llawer o'r geiriau allweddol yn y testunau darllen a deall. Nid yw peilliwr, paill a neithdar yn y testunau darllen a deall, ond maen nhw yn y testun esboniadol.



# Iddyn nhw: Yn newid y drefn torri glaswellt er lles natur – Testun Esboniadol

Mae llawer o Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill ledled Cymru yn newid sut maen nhw'n gofalu am laswelltiroedd yn ein parciau ac ar ymylon ffyrdd. Maen nhw'n gadael i'r blodau dyfu am fwy o amser fel y gallan nhw wneud hadau. Maen nhw'n torri ac yn casglu'r glaswellt yn ddiweddarach yn yr haf. Mae amryw o resymau am hyn.

Efallai fod glaswellt byr yn edrych yn dwt a thaclus ond nid yw'n dda iawn i fywyd gwyllt. Does dim llawer o lefydd i fywyd gwyllt fyw na llochesu mewn glaswellt byr, ac ychydig iawn o fwyd sydd iddyn nhw ei fwyta. Er mwyn helpu bywyd gwyllt, gallwn ni newid y ffordd rydyn ni'n torri glaswellt mewn parciau ac ar ymylon ffyrdd. Os ydyn ni'n torri'r gwair yn llai aml, mae'n rhoi cyfle i flodau gwyllt dyfu a ffynnu.

Mae gan flodau gwyllt baill a neithdar. Dyma fwyd i bryfed, sef pryfed peillio. Mae cacwn, gwenyn unig, gwenyn mêl, pryfed hofran, glöynnod byw, gwyfynod, clêr (pryfaid), chwilod, gwenyn meirch a phob math o bryfed eraill yn bryfed peillio.

Pan fydd pryfed peillio yn bwydo ar neithdar maen nhw'n casglu paill ar eu cyrff o rannau gwrywaidd y blodyn. Pan fydd pryfed peillio yn mynd i fwydo ar flodyn newydd o'r un math, maen nhw'n symud paill i rannau benywaidd y blodyn. Peillio yw enw hyn.

Mae llawer o blanhigion angen peillio i wneud hadau. Mae ffrwythau a chnau yn cynnwys hadau. Mae hadau yn tyfu'n blanhigion newydd. Mae'r hadau, ffrwythau a chnau sy'n cael eu cynhyrchu gan blanhigion yn bwydo anifeiliaid eraill.

Mae planhigion a phryfed peillio yn dibynnu ar ei gilydd. Mae angen pryfed peillio ar dri chwarter planhigion blodeuog gwledydd Prydain er mwyn iddyn nhw wneud hadau. Heb bryfed peillio, allai'r planhigion ddim cynhyrchu hadau a heb y blodau ni fyddai bwyd ar gael i bryfed peillio.

Mae glaswellt hir a blodau gwyllt yn rhoi lloches i bryfed ddodwy wyau ac i'w rhai bach fwydo a datblygu. Mae infertebratau neu fwystfilod bach eraill yn hoffi byw mewn neu o dan borfa hirach hefyd. Gall 1,400 a mwy o rywogaethau o infertebratau fyw mewn dôl.

Dôl yw cae llawn blodau gwyllt brodorol a glaswellt, sy'n cael eu gadael i dyfu'n uchel heb gael eu torri tan ddiwedd yr haf. Dros yr haf, mae planhigion yn gwneud hadau ar gyfer blodau gwyllt y flwyddyn nesaf. Mae torri'r glaswellt ar ôl i'r hadau ddisgyn i'r ddaear yn rhoi cyfle i fwy o flodau dyfu y flwyddyn ganlynol.

Mae llawer o infertebratau fel pryfed genwair neu fwydod a morgrug yn byw o dan y ddaear. Maen nhw'n creu twneli ac yn chwalu'r pridd. Mae planhigion blodeuol â gwreiddiau hir hefyd yn llesol i'r pridd. Mae torri gwair yn llai aml yn atal pridd rhag cael ei wasgu ormod at ei gilydd. Mae pridd mwy llac yn helpu i amsugno dŵr glaw, sy'n lleihau llifogydd a sychder.

Mae'r pridd o dan y glaswelltir yn storio carbon. Mae storio carbon yn y pridd yn gallu helpu i arafu newid hinsawdd. Mae dolydd sydd â mwy o amrywiaeth o blanhigion yn storio mwy o garbon na glaswelltiroedd gyda llai o amrywiaeth.

Os byddwn ni'n parhau i newid y ffordd rydyn ni'n rheoli ein glaswelltiroedd, dros amser, bydd blodau gwyllt yn cynyddu a bydd ein parciau, ymylon ffyrdd a mannau gwyrdd eraill yn dod yn debycach i ddolydd blodau gwyllt. Hyd yn oed os yw rhai clytiau yn fach, byddan nhw i gyd yn dod at ei gilydd i greu ardal fawr a bydd bywyd gwyllt yn gallu symud rhwng cynefinoedd cysylltiedig.

# Testun darllen a deall 1

## 1. Iddyn nhw — Cadwyn Fwyd y Ddôl

Dôl yw cae llawn blodau gwyllt a glaswellt, sy'n cael eu gadael i dyfu'n uchel heb gael eu torri tan ddiwedd yr haf. Dros yr haf, mae planhigion yn gwneud hadau ar gyfer blodau gwyllt y flwyddyn nesaf. Mae torri'r glaswellt ar ôl i'r hadau ddisgyn i'r ddaear yn rhoi cyfle i fwy o flodau dyfu y flwyddyn ganlynol.

Mae angen egni ar bob planhigyn ac anifail i fyw.

Mae planhigion yn cael egni o'r haul. Gall planhigion wneud eu bwyd eu hunain trwy ffotosynthesis. Rydyn ni'n eu galw nhw'n gynhyrchwyr oherwydd eu bod yn gwneud eu bwyd eu hunain.

Dydy anifeiliaid ddim yn gallu cynhyrchu eu bwyd eu hunain. I gael egni mae angen iddyn nhw fwyta planhigion neu anifeiliaid. Ysyddion ydyn nhw.

Mae cadwyn fwyd yn dangos sut mae egni'n mynd o blanhigion i anifeiliaid.

Mewn dôl, mae planhigion yn cael eu bwyta gan chwilod sef math o bryfed. Mae pryfed yn cael eu bwyta gan anifeiliaid bach fel chwistlod. Mae anifeiliaid bach yn cael eu bwyta gan anifeiliaid mwy fel tylluanod.

**Planhigion > Pryfed > Anifeiliaid bach > Anifeiliaid mwy**

Mae planhigion fel arfer ar ddechrau'r gadwyn fwyd oherwydd eu bod yn gynhyrchwyr. Mae anifeiliaid mwy yn agos at y diwedd fel arfer.

Mae cadwyn fwyd yn dangos sut mae anifeiliaid angen planhigion ac anifeiliaid eraill i fyw. Os byddwch chi'n tynnu un rhan o'r gadwyn fwyd i ffwrdd, bydd yn effeithio ar anifeiliaid eraill.

Heb bryfed, byddai llawer llai o fwyd i'r anifeiliaid bach.
Pe bai llai o anifeiliaid bach, byddai llai o fwyd i'r anifeiliaid mwy.

Mae gadael i blanhigion dyfu mewn parciau ac ymylon ffyrdd glaswellt yn rhoi bwyd i bryfed. Mae cael mwy o bryfed yn bwysig oherwydd eu bod yn fwyd i anifeiliaid eraill.

### Cwestiynau:

1. Mae'r haul yn darparu egni i bopeth byw. **Cywir / Anghywir**

2. Mae chwilen yn gynhyrchydd. **Cywir / Anghywir**

3. Pam rydyn ni'n galw anifeiliaid yn ysyddion?

_______________________________________________

_______________________________________________

4. Rhowch y geiriau hyn yn y drefn gywir i wneud cadwyn fwyd:

**chwistlen** **tylluan** **planhigyn** **chwilen**

[ ] → [ ] → [ ] → [ ]

5. Gwnewch eich cadwyn fwyd eich hun.

[ ] → [ ] → [ ] → [ ]

# Testun Darllen a Deall 2

## 2. Iddyn nhw — Gwe Fwydydd y Ddôl

Rhywle sy'n gartref i blanhigion ac anifeiliaid yw cynefin. Mae angen bod digon o fwyd, dŵr a lloches mewn cynefin er mwyn iddyn 'nhw' fyw a gallu creu planhigion ac anifeiliaid newydd. Dôl yw cae llawn blodau gwyllt a glaswellt, sy'n cael eu gadael i dyfu'n uchel heb eu torri tan ddiwedd yr haf. Mae dôl yn gynefin i blanhigion ac anifeiliaid di-ri.

Mae gwe fwydydd yn dangos sut mae'r planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw mewn cynefin yn cael eu cysylltu drwy'r hyn maen nhw'n ei fwyta.

Mae angen i bopeth byw gael egni. Mae planhigion yn cael egni o'r haul. Maen nhw'n gwneud eu bwyd eu hunain trwy ffotosynthesis. Mae planhigion yn cael eu galw'n gynhyrchwyr am eu bod nhw'n gwneud eu bwyd eu hunain. Mae pryfed a bwystfilod bach eraill yn infertebratau. Sef anifeiliaid heb asgwrn cefn. Mae sawl math gwahanol o infertebratau. Chwilod, gwenyn, clêr (pryfaid), mwydod/pryfed genwair, gloÿnnod byw, gwyfynod a morgrug – maen nhw i gyd yn infertebratau.

Dydy anifeiliaid ddim yn gallu cynhyrchu eu bwyd eu hunain. Mae'n rhaid iddyn nhw fwyta planhigion neu anifeiliaid eraill, a dyna pam maen nhw'n cael eu galw'n ysyddion. Gelwir anifeiliaid sy'n bwyta anifeiliaid eraill yn ysglyfaethwyr. Mae'r anifeiliaid maen nhw'n eu bwyta yn cael eu galw'n ysglyfaeth.

Mewn dôl, mae llawer o infertebratau yn bwyta planhigion. Mae infertebratau a phlanhigion yn fwyd i fywyd gwyllt arall.


Mae mamaliaid, fel llygoden y maes, y llygoden bengron a'r chwistlen, yn bwyta planhigion ac infertebratau sy'n byw mewn dolydd. Mae draenogod yn ysglyfaethu'n bennaf ar wlithod, malwod, chwilod, mwydod/pryfed genwair ac infertebratau eraill. Yn y nos, mae ystlumod yn dal pryfed sy'n hedfan.

Mae amffibiaid fel brogaod a llyffantod, ac ymlusgiaid, fel madfallod a nadroedd defaid, yn bwyta infertebratau. Mae nadroedd y gwair yn ymlusgiaid hefyd ac maen nhw'n ysglyfaethu ar frogaod, llyffantod a mamaliaid bach.

Mae rhai adar a mamaliaid mawr yn ysglyfaethu ar amffibiaid ac ymlusgiaid. Er mwyn osgoi cael eu bwyta, gall madfallod a nadroedd defaid dwyllo eu hymosodwyr trwy golli neu ddiosg eu cynffonnau. Maen nhw'n gallu aildyfu eu cynffonnau ond fel arfer maen nhw'n tyfu'n ôl yn fyrrach.

Mae adar bach, fel llinosiaid neu bincod, yn bwyta hadau o flodau gwyllt. Mae'r nico yn defnyddio ei big pigfain i dynnu hadau allan o blanhigion fel dant y llew. Mae adar eraill fel y wennol, y wennol ddu a gwennol y bondo yn dal pryfed wrth iddyn nhw hedfan. Mae adar mwy o faint, fel y cudyll coch, y bwncath/boda a'r dylluan, yn ysglyfaethu ar infertebratau, mamaliaid bach, ymlusgiaid ac amffibiaid. Mae'r cudyll coch yn heliwr da ac yn gallu gweld chwilen 50 metr i ffwrdd. Mae gan y dylluan wen blu arbennig sy'n ei helpu i hedfan yn dawel iawn. Mae hyn yn caniatáu iddi glywed ei hysglyfaeth yn symud ar y ddaear a sleifio i fyny heb gael ei chlywed.

Mae dolydd yn gynefinoedd da i fywyd gwyllt. Mae gadael i laswellt a blodau gwyllt dyfu mewn parciau ac ar ymylon ffyrdd yn eu gwneud yn debycach i ddolydd ac yn creu mwy o lefydd i blanhigion ac anifeiliaid fyw.



**Cwestiynau:**

1. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cynhyrchydd ac ysydd?

2. Mewn dôl, pa anifeiliaid sy'n bwyta planhigion?

3. Allwch chi enwi 10 ysglyfaeth sydd i'w cael mewn dôl?

4. Allwch chi enwi 10 ysglyfaethwr sy'n bwydo mewn dôl?


5. Pam mae'n bwysig gadael i'r glaswellt a'r blodau dyfu?


6. Cwblhewch y gweithgaredd gwe fwydydd.

# Gweithgaredd gwe fwydydd


1. Rhowch y geiriau cywir yn y blychau gwag: **planhigion** **amffibiaid** **adar bach**

2. Tynnwch saethau i gysylltu'r blwch i ddangos beth sy'n bwydo beth.





# Iddyn Nhw: Cadwyn Fwyd y Ddôl – Croesair




### Ar draws

**4.** Aderyn sy'n hela'n dawel yn y nos. (6)

**7.** Diagram sy'n dangos sut mae egni'n symud o blanhigion i anifeiliaid. (6, 4)

**9.** Man lle mae blodau gwyllt a glaswellt yn tyfu yn yr haf. (3)

**10.** Yr enw ar anifeiliaid sy'n bwyta planhigion neu anifeiliaid eraill. (7)

### I lawr

**1.** Mae gadael i laswellt a blodau gwyllt dyfu yn rhoi bwyd i beth? (5, 5)

2. Mae planhigion yn gwneud eu bwyd eu hunain drwy'r broses hon. (12)


**3.** Mae hwn yn rhoi egni i bopeth byw. (4)

**5.** Rydyn ni'n galw planhigion yn hyn am eu bod yn cynhyrchu eu bwyd eu hunain. (10)

**6.** Mae angen y rhain er mwyn i blanhigion newydd dyfu. (5)

**8.** Pryfyn y gallai chwistlen ei fwyta. (6)

# Iddyn Nhw: Cadwyn Fwyd y Ddôl – Atebion y Croesair





## Ar draws

4. Aderyn sy'n hela'n dawel yn y nos. (6)
7. Diagram sy'n dangos sut mae egni'n symud o blanhigion i anifeiliaid. (6, 4)
9. Man lle mae blodau gwyllt a glaswellt yn tyfu yn yr haf. (3)
10. Yr enw ar anifeiliaid sy'n bwyta planhigion neu anifeiliaid eraill. (7)

## I lawr

1. Mae gadael i laswellt a blodau gwyllt dyfu yn rhoi bwyd i beth? (5, 5)
2. Mae planhigion yn gwneud eu bwyd eu hunain drwy'r broses hon. (12)
3. Mae hwn yn rhoi egni i bopeth byw. (4)
5. Rydyn ni'n galw planhigion yn hyn am eu bod yn cynhyrchu eu bwyd eu hunain. (10)
6. Mae angen y rhain er mwyn i blanhigion newydd dyfu. (5)
8. Pryfyn y gallai chwistlen ei fwyta. (6)

# Iddyn Nhw: Gwe Fwydydd y Ddôl – Croesair




## Ar draws


2. Heliwr tawel y nos. (6, 3)
4. Diagram sy'n dangos sut mae planhigion ac anifeiliaid gwahanol wedi'u cysylltu gan yr hyn maen nhw'n ei fwyta. (3, 6)
6. Anifail sy'n gallu twyllo ymosodwyr trwy golli ei gynffon. (6)
9. Anifeiliaid di-asgwrn-cefn. (13)
10. Rhywle lle mae planhigion ac anifeiliaid yn byw. (7)

## I lawr

1. Anifail mae draenog yn ei fwyta. (6)
3. Anifeiliaid sy'n ysglyfaethu ar anifeiliaid eraill. (12)
5. Grŵp o anifeiliaid y mae'r broga a'r llyfant yn perthyn iddo. (9)
7. Mamal sy'n hedfan yn y nos ac yn bwyta pryfed. (6)
8. Aderyn â phig pigfain i dynnu hadau. (4)



# Iddyn Nhw: Gwe Fwydydd y Ddôl: Atebion y Croesair



## Ar draws

2. Heliwr tawel y nos. (6, 3)
4. Diagram sy’n dangos sut mae planhigion ac anifeiliaid gwahanol wedi’u cysylltu gan yr hyn maen nhw’n ei fwyta. (3, 6)
6. Anifail sy’n gallu twyllo ymosodwyr trwy golli ei gynffon. (6)
9. Anifeiliaid di-asgwrn-cefn. (13)
10. Rhywle lle mae planhigion ac anifeiliaid yn byw. (7)


## I lawr

1. Anifail mae draenog yn ei fwyta. (6)
3. Anifeiliaid sy’n ysglyfaethu ar anifeiliaid eraill. (12)
5. Grŵp o anifeiliaid y mae’r broga a’r llyfant yn perthyn iddo. (9)
7. Mamal sy’n hedfan yn y nos ac yn bwyta pryfed. (6)
8. Aderyn â phig pigfain i dynnu hadau. (4)

# Chwilair Iddyn Nhw: Anifeiliaid

Dewch o hyd i'r geiriau yn y chwilair.

**morgrug**
**bwncath**
**nico**
**gwyfyn**
**gwennol**
**chwilen**
**mwydyn**
**draenog**
**tylluan**
**gwennol ddu**
**cacynen**
**pryfyn**
**cudyll coch**
**chwistlen**
**llyffant**
**glöyn byw**
**broga**
**madfall**
**malwoden**
**llygoden y gwair**




| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| th | o | r | m | w | y | d | y | n | t | g | f | a | m | o |
| c | g | m | a | d | f | a | ll | f | o | ll | f | u | a | th |
| b | w | t | r | g | l | ö | y | n | b | y | w | o | l | y |
| w | e | i | m | t | y | i | e | p | w | g | b | m | w | ff |
| n | n | t | o | h | ff | a | e | o | dd | o | p | e | o | h |
| c | n | c | r | o | r | s | i | d | c | d | ff | o | d | p |
| a | o | l | g | d | th | o | s | c | b | e | i | ch | e | g |
| th | l | f | r | h | g | c | r | a | ll | n | n | w | n | t |
| c | dd | s | u | u | w | u | f | c | y | y | i | i | n | y |
| th | u | t | g | d | y | d | f | y | ff | g | c | s | d | ll |
| n | f | p | r | y | f | y | n | n | a | w | o | t | b | u |
| s | i | l | s | c | y | ll | t | e | n | a | dd | l | r | a |
| b | r | o | g | a | n | c | ö | n | t | i | f | e | e | n |
| t | g | w | e | n | n | o | l | p | f | r | ö | n | w | o |
| u | dd | n | p | w | y | ch | w | w | ch | w | i | l | e | n |

# Chwilair Iddyn Nhw: Geiriau Allweddol

Dewch o hyd i'r geiriau yn y chwilair.

**amffibiaid**
**cynefin**
**mamaliaid**
**peilliwr**
**cynhyrchydd**
**adar**
**pryfed**
**neithdar**
**ysglyfaethwr**
**ymlusgiaid**
**ysydd**
**infertebratau**
**paill**
**ysglyfaeth**
**hadau**



| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ff | h | h | e | d | r | m | a | m | a | l | i | a | i | d |
| c | y | n | e | f | i | n | p | u | ch | r | l | a | c | b |
| a | y | b | r | a | m | ff | i | b | i | a | i | d | d | l |
| c | s | n | ll | m | t | a | n | e | i | th | d | a | r | f |
| a | c | i | n | f | e | r | t | e | b | r | a | t | a | u |
| n | y | p | s | h | th | p | n | l | w | i | p | i | ll | g |
| dd | n | s | r | a | o | n | m | th | c | o | e | a | t | a |
| c | h | w | y | y | d | t | e | m | r | p | ch | e | d | e |
| m | y | o | h | dd | f | a | ff | p | e | i | ll | i | w | r |
| r | r | h | t | a | f | e | r | f | l | s | ff | c | m | l |
| h | ch | b | w | y | d | u | d | d | a | b | c | o | th | n |
| n | y | a | l | f | e | a | c | g | w | t | g | y | f | p |
| a | dd | g | u | y | m | l | u | s | g | i | a | i | d | a |
| m | s | d | d | o | i | f | n | l | f | l | n | f | w | i |
| y | s | g | l | y | f | a | e | th | o | i | f | u | s | ll |

# Iddyn Nhw – Dadlau

## Cyflwyniad

Gellir defnyddio dadlau i drafod amrywiaeth o faterion amgylcheddol a materion eraill sy'n effeithio ar ein bywydau. (I gael adnoddau ychwanegol ar ddadlau ewch i: Dadl (senedd.cymru) a Dadlau, pecyn adnoddau – Addysg Senedd y DU.

Gall dadlau fod yn ffordd ddefnyddiol i ddysgwyr ddatblygu a chyflwyno eu barn, herio syniadau a dod ar draws safbwyntiau eraill. Gall dadleuon yn yr ystafell ddosbarth ddatblygu sgiliau cyfathrebu, ymchwil a meddwl yn feirniadol.

Gall cael trafodaethau gyda theulu, ffrindiau a chyd-ddisgyblion ar faterion cyfredol sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, yr amgylchedd a newid hinsawdd helpu i archwilio'r teimladau sylfaenol sy'n dylanwadu ar gredoau pobl a pham y gall fod gwrthwynebiad i newid.

Nod yr ymgyrch Iddyn Nhw yw cynyddu dealltwriaeth o ran pam ei bod yn bwysig rheoli ein mannau gwyrdd yn wahanol. Ers blynyddoedd lawer, mae glaswellt mewn parciau ac ar ymylon ffyrdd wedi cael ei dorri'n fyr yn rheolaidd. Mae newid yr arfer safonol hwn i ddod â manteision i fywyd gwyllt yn gofyn am newid yn yr hyn sy'n cael ei ystyried fel ymddangosiad normal a derbyniol yn esthetig ar gyfer mannau gwyrdd.

## Paratoi a dadlau

Mae'r gwaith paratoi a'r ddadl wedi'u rhannu'n ddwy sesiwn.

Mae sesiwn un yn cynnwys:

- esbonio beth yw dadl
- penderfynu ar gynnig
- dewis cymedrolwr
- ffurfio dau dîm dadlau
- ymchwilio i'r pwnc a chasglu pwyntiau i'w trafod.

Mae sesiwn dau yn cynnwys:

- adolygu'r ymchwil a chytuno ar bwyntiau ar gyfer pob siaradwr
- dewis siaradwyr
- rôl a threfn pob siaradwr
- y ddadl
- trafodaeth yn y dosbarth yn dilyn y ddadl.

## Beth yw dadl?

**Mae dadl yn digwydd pan fydd pobl yn cyflwyno dwy ddadl wrthwynebol ar bwnc penodol.**

Mae'r ddadl yn dechrau gyda datganiad sy'n nodi'r pwnc i'w drafod. Gelwir y datganiad hwn yn **gynnig**. Ar gyfer y ddadl hon yn yr ystafell ddosbarth, mae dysgwyr yn cael eu rhannu'n ddau dîm gyda chymedrolwr. Mae un tîm yn dadlau **dros** y cynnig a'r tîm arall yn dadlau **yn erbyn** y cynnig. Y cymedrolwr sy'n gyfrifol am y ddadl. Ar ôl penderfynu ar y cynnig i ddadlau yn ei gylch, mae'r timau yn ymchwilio i'r pwnc ac yn datblygu pwyntiau i'w defnyddio yn eu dadl.

Gall dysgwyr sy'n newydd i ddadlau ei chael hi'n anodd meddwl am ddadl wrthwynebol pan fydd cynnig yn cael ei roi iddynt. Weithiau, maen nhw'n meddwl mai'r cynnig yw'r ochr 'gywir' ac mae'n rhaid iddyn nhw ddadlau/trin a thrafod yn ei erbyn, felly maen nhw ar yr ochr 'ddrwg'. Felly, mae'n bwysig i ddysgwyr ddeall nad datganiad o ffaith yw'r cynnig ond datganiad sy'n cynrychioli safbwynt. Pwrpas y cynnig yw rhoi ffocws ar gyfer y ddadl a chaniatáu i dimau ddatblygu pwyntiau dadlau o'i blaid ac yn ei erbyn.

**Mae'n bosibl na fydd barn bersonol dysgwyr yn aml yn cyd-fynd â'r sefyllfa y mae'n rhaid i'w tîm ei chyflwyno**. Sgiliau allweddol dadlau yw ymchwilio, cyflwyno dadl ac amddiffyn safbwynt waeth beth fo'u barn bersonol.

## Penderfynu ar gynnig

**Dewiswch gynnig o'r rhestr a awgrymir isod, neu pleidleisiwch ar gynnig o'r rhestr isod.**

Mae'r pedwar cynnig cyntaf yn cefnogi'r safbwynt y gall torri glaswellt yn llai aml gynyddu cyfleoedd i natur. Mae'r pedwar cynnig olaf yn adlewyrchu pryderon pobl sy'n well ganddynt fod glaswellt yn cael ei dorri'n rheolaidd a'i gadw'n fyr.

Cynigion i ddadlau yn eu cylch:

- Mae angen mwy o ardaloedd glaswelltog hir ar ein mannau gwyrdd.
- Mae mannau gwyrdd yn fwy diddorol pan fyddant yn naturiol.
- Dylai harddwch mannau gwyrdd fod yn drysor i fywyd gwyllt.
- Dylai pob man gwyrdd cyhoeddus fod yn fwy gwyllt i gefnogi bioamrywiaeth.
- Mae parciau ac ymylon ffyrdd twt a thaclus yn adlewyrchu cymuned sy'n poeni am ei hamgylchedd.
- Mae angen i ni dorri glaswellt yn rheolaidd er mwyn i bobl fwynhau ein mannau gwyrdd.
- Mae mannau gwyrdd trefol ar gyfer pobl nid bywyd gwyllt.
- Mae glaswellt hir tebyg i ddôl mewn parciau yn wastraff o le.

## Dewis cymedrolwr a deall ei rôl

**Mae angen dewis cymedrolwr. Gallai'r cymedrolwr fod yn athro, yn ddysgwr neu'n ddysgwr ac athro sy'n gweithredu ar y cyd**. Dylai'r cymedrolwr fod yn ddiduedd a sicrhau bod y drafodaeth yn parhau i ganolbwyntio ar y pwnc dan sylw.

Mae angen i'r cymedrolwr wneud y canlynol:

1. Rhoi cyflwyniad byr i'r pwnc i osod cyd-destun y ddadl (ar drywydd y cyflwyniad a roddir uchod). Ni ddylai hyn fod yn fwy nag un funud ac ni ddylai nodi'r hyn y mae siaradwyr yn mynd i'w ddweud. (Tra bod y timau dadlau yn ymchwilio i'w dadleuon, gall y cymedrolwr symud rhwng y ddau dîm a dod yn gyfarwydd â'u dadleuon. Bydd hyn o gymorth i'r cymedrolwr er mwyn helpu llif y ddadl yn ddiweddarach a chadw siaradwyr ar y pwnc.)
2. Nodi faint o amser y rhoddir i bob siaradwr (fel y penderfynwyd isod).
3. Gwahodd a chyflwyno siaradwyr i siarad pan fydd eu tro nhw.
4. Aros yn niwtral a chadw siaradwyr i'w hamseroedd penodol.
5. Cadw'r ddadl yn barchus ac yn ddigynnwrf. Os bydd rhywun yn torri ar draws y siaradwr, atgoffwch y rhai sy'n cymryd rhan tro pwy yw hi i siarad a gofynnwch iddynt ddychwelyd at y pwnc. Os yw siaradwr yn nerfus, efallai y gallech ofyn iddynt a oes angen diod o ddŵr arnynt.
6. Cadw'r drafodaeth ar y pwnc. Fodd bynnag, ni ddylent fod yn rhy llym oherwydd y gall rhywfaint o symud i ffwrdd o'r pwnc fywiogi'r ddadl. Mae angen iddynt gadw cydbwysedd rhwng siaradwyr sy'n symud yn rhy bell oddi wrth y pwnc a chaniatáu iddynt fynegi eu barn.
7. Cloi'r ddadl.

## Ffurfio dau dîm dadlau

**Mae'r dosbarth wedi'i rannu'n ddau dîm.** Mae un tîm yn cefnogi'r cynnig a'r llall yn ei wrthwynebu, waeth beth fo'u barn bersonol ar y sefyllfa y mae'n rhaid i'w tîm ei gyflwyno.

**Penderfynwch faint o amser sydd gan bob siaradwr i gyflwyno ei ddadl (fel arfer mae 3 i 5 munud i bob siaradwr yn ddigonol).**

## Ymchwilio i'r pwnc a chasglu pwyntiau ar gyfer dadl

**Mae timau yn ymchwilio i'r pwnc i ddod yn wybodus am eu hochr o'r ddadl**. O fewn eu timau, mae angen i ddysgwyr weithio gyda'i gilydd i ddatblygu eu dadl ar y cyd. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn ystyried cryfder a dibynadwyedd y ffynonellau maen nhw'n eu defnyddio ac yn nodi unrhyw ragfarn neu gamwybodaeth gan yr awduron.

**Mae dysgwyr yn diffinio unrhyw dermau allweddol** a ddefnyddir e.e. 'gwyllt', 'naturiol' neu 'amgylchedd'. Mae hyn yn bwysig oherwydd gall canfyddiadau timau o'r hyn y mae'r geiriau hyn yn ei olygu fod yn wahanol i'w gilydd.

**Mae timau'n gwneud nodiadau ac yn rhestru pwyntiau, ffeithiau a thystiolaeth y maent am eu defnyddio**. Yn ystod y ddadl, mae angen ffeithiau neu dystiolaeth i gefnogi pwyntiau gan siaradwyr.

Efallai y bydd y tîm sy'n gwrthwynebu yn dymuno mabwysiadu **dull cymedrol** wrth lunio pwyntiau ar gyfer eu dadl. At ddibenion dadl, mae rhai o'r cynigion a restrir uchod wedi'u geirio i adlewyrchu persbectif cryf e.e. 'Dylai pob man gwyrdd cyhoeddus fod yn fwy gwyllt i gefnogi bioamrywiaeth'. Yn ogystal â mabwysiadu'r safbwynt sydd i'r gwrthwyneb yn llwyr, mae cyfle i ddysgwyr sy'n gwrthwynebu cynigion gymryd safbwynt mwy cymedrol h.y. dylai rhai mannau gwyrdd cyhoeddus fod yn fwy gwyllt i gefnogi bioamrywiaeth.

**Yn rhan olaf y sesiwn hon, mae'r timau'n dechrau rhoi eu pwyntiau mewn tair adran**. Mae hyn oherwydd y bydd gan bob tîm dri siaradwr sy'n cyflwyno gwahanol rannau o'u dadl (**gweler yr adran isod: Rolau a threfn y siaradwyr**).

## Gwahaniaethu

**Os yw dysgwyr yn ei chael hi'n anodd datblygu dadl** ar eu pennau eu hunain, gall athro eu tywys drwy drafodaeth a cheisio tynnu sylw at bwyntiau y gallent eu defnyddio. **Mae'r tabl isod yn cynnwys rhestr o bwyntiau a awgrymir i helpu i ddatblygu trafodaeth.** Mae'r pwyntiau wedi'u rhannu'n ddwy golofn.

Mae rhai pwyntiau sy'n adlewyrchu dull mwy cymedrol neu ganolradd wedi'u cynnwys yn yr ail golofn.

Fel dewis arall, efallai y bydd rhai dysgwyr yn ei chael hi'n ddefnyddiol cael cardiau fflach o'r datganiadau hyn i'w helpu i roi trefn ar bwyntiau ac adeiladu eu dadleuon. Mae'r cardiau fflach i'w gweld ar dudalen 39.

**Pwyntiau sy'n cefnogi ardaloedd gwyrdd i fod yn fwy gwyllt**

- Gall y gair 'amgylchedd' gynnwys lleoedd lle mae pobl yn byw ond mae'r amgylchedd 'naturiol' yn cynnwys lle mae anifeiliaid a phlanhigion yn byw.
- Mae bod yn 'dwt ac yn daclus' yn gadael fawr ddim cynefin i blanhigion ac anifeiliaid, ac nid yw'n dangos gofal am fyd natur.
- Nid yw bod yn 'dwt ac yn daclus' yn caniatáu i flodau gwyllt dyfu.
- Ledled y wlad, mae gwahanol flodau gwyllt yn tyfu mewn gwahanol ardaloedd. Mae caniatáu iddynt dyfu yn rhoi cymeriad mwy lleol i leoedd.
- Mae glaswellt hir tebyg i ddôl yn cefnogi bywyd gwyllt, sy'n bwysig gan ein bod mewn argyfwng natur.
- Mae llawer o gynefinoedd dolydd yng nghefn gwlad wedi cael eu colli ers canol yr 20fed ganrif.
- Mae parciau wedi'u cynllunio er mwyn i bobl gael mannau awyr agored, ond nid oes rhaid iddynt fod ar gyfer hamdden yn unig.
- Mae ardaloedd sy'n debyg i ddôl yn rhoi cyfleoedd i bobl fwynhau natur, arsylwi ar blanhigion, anifeiliaid a'r tymhorau sy'n newid.
- Gall cysylltu â bywyd gwyllt fod o fudd i iechyd a lles meddwl pobl, gan wneud iddynt deimlo'n dawelach eu meddwl, yn hapusach a rhoi mwy o ffocws iddynt.
- Pan fydd gwenyn mêl a chacwn yn brysur yn chwilio am neithdar neu baill, anaml y maent yn pigo oni bai eu bod dan fygythiad neu fod tarfu ar eu nyth/cwch gwenyn.

**Pwyntiau sy'n cefnogi ardaloedd gwyrdd i fod yn llai gwyllt**

- Mae'r amgylchedd mewn trefi a dinasoedd wedi'i gynllunio ar gyfer pobl.
- Mae cynefinoedd yng nghefn gwlad yn darparu cartref i fywyd gwyllt.
- Mewn dinasoedd a threfi, mae lle cyfyngedig i bobl fwynhau'r awyr agored a chwarae.
- Mae pobl yn mynd i barciau i ymlacio. Os yw'r parc yn edrych yn anniben, ni fyddant yn ei fwynhau gymaint.
- Mae ardaloedd glaswellt byr yn bwysig i bobl chwarae chwaraeon tîm, cadw'n heini a chwrdd â phobl eraill.
- Mae torri'r glaswellt bob ychydig o wythnosau yn caniatáu i bobl ddefnyddio caeau chwaraeon hamdden ac ardaloedd chwarae.
- Mae torri'r glaswellt ar gaeau chwaraeon bob 4-6 wythnos yn caniatáu i flodau byr fel llygad y dydd dyfu a gall pobl barhau i'w defnyddio.
- Mae ardaloedd glaswelltog hir yn anodd i bobl deithio ar eu traws, yn enwedig os yw hi'n wlyb.
- Mae rhai pobl yn cerdded i'r gwaith neu'r ysgol drwy barciau neu ardaloedd glaswelltog. Os nad yw'r glaswellt yn cael ei gadw'n fyr, mae'n anoddach cymryd y llwybr hwnnw.
- Mae cael mwy o flodau yn denu mwy o wenyn ac mae gan rai pobl alergedd i bigiadau gwenyn.
- Mae rhai pobl yn meddwl bod glaswellt byr yn gwneud i barciau edrych yn brydferth ac wedi'u cadw'n dda.

## Pwyntiau sy'n cefnogi ardaloedd gwyrdd i fod yn fwy gwyllt

- Mae torri llwybrau drwy laswellt hir yn helpu pobl i gerdded drwy ardaloedd glaswelltog.
- Mewn dolydd, mae torri stribedi cul ar hyd ymyl llwybrau troed caled yn cadw'r llwybrau'n glir.
- Mae torri llwybrau a stribedi cul yn dangos bod ardal yn derbyn gofal a bod glaswellt hirach yn cael ei adael am reswm.
- Mae yn erbyn y gyfraith i rywun adael eu baw cŵn mewn mannau cyhoeddus. Dylai perchnogion cŵn godi'r holl faw waeth beth fo uchder y glaswellt. Mae hefyd yn drosedd i ollwng sbwriel.
- Lle gallai glaswellt hir fod yn berygl tân, gellir ei dorri yn gynharach yn yr haf a mynd â'r glaswellt sydd wedi'i dorri i ffwrdd neu ei gadw'n fyrrach i adael i flodau bach dyfu.
- Mae dolydd blodau gwyllt gyda gwreiddiau dwfn yn gallu gwrthsefyll tân yn fwy na glaswellt hir.
- Ar ddiwedd yr haf, mae planhigion yn rhoi egni i wneud hadau ar gyfer blodau gwyllt y flwyddyn nesaf. Mae'r ardaloedd hyn yn dal i ddarparu lloches a bwyd i fywyd gwyllt.
- Weithiau mae cymysgeddau o hadau blodau sy'n cael eu plannu bob blwyddyn (cymysgeddau hadau unflwydd) yn cael eu galw'n 'flodau gwyllt' ond yn aml nid ydynt yn flodau gwyllt brodorol sydd fel arfer yn tyfu yng Nghymru.
- Mae cymysgeddau hadau unflwydd yn gwneud fawr ddim i helpu i warchod ein blodau gwyllt brodorol. Gallant fod yn ddrud i'w prynu ac mae angen gwaith i'w cynnal.
- Mae arwyddion a gwybodaeth yn helpu i esbonio pam mae glaswellt yn cael ei adael i dyfu.
- Mae cynnwys pobl leol yn cynyddu eu dealltwriaeth o ran sut y gallant helpu bywyd gwyllt.

## Pwyntiau sy'n cefnogi ardaloedd gwyrdd i fod yn llai gwyllt

- Mae glaswellt mewn mannau gwyrdd fel parciau wedi'i dorri'n hanesyddol i adlewyrchu dyluniad gwreiddiol y parc.
- Mae pobl wedi arfer â pharciau â glaswellt byr ac maen nhw'n hapus â'r hyn maen nhw'n gyfarwydd ag ef.
- Gall peidio â thorri'r glaswellt wneud i bobl deimlo'n anghyfforddus oherwydd nad dyna y maen nhw wedi arfer ag ef.
- Mae cadw ardaloedd yn 'dwt ac yn daclus' yn dangos bod ardal yn cael ei rheoli ac mae'n teimlo fel ei bod yn derbyn gofal.
- Gall glaswellt hir guddio sbwriel a baw cŵn.
- Mewn rhai ardaloedd, gall glaswellt hir fod yn berygl tân.
- Gall gadael glaswellt a dorrwyd ar y ddaear fod yn berygl tân mawr mewn tywydd sych yn ystod yr haf.
- Ar ôl y tymor blodeuo, mae ardaloedd yn dechrau edrych yn flinedig ac yn anniben.
- Efallai na fydd pobl eisiau aros sawl blwyddyn i flodau gwyllt gynyddu'n naturiol drwy dorri a chael gwared ar y glaswellt ar ddiwedd yr haf.
- Gall prynu a hau cymysgedd o hadau blodau bob blwyddyn (cymysgeddau hadau unflwydd) wneud i ardaloedd edrych yn lliwgar ac yn hardd.
- Dylai pobl allu penderfynu sut mae eu hamgylchedd lleol yn edrych.
- Mae'n bwysig trafod newidiadau i dorri glaswellt gyda phobl sy'n byw yn yr ardal fel y gallant gael dweud eu dweud.
- Dylai fod cydbwysedd rhwng yr hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer ardaloedd glaswelltog a'r hyn sydd orau ar gyfer bywyd gwyllt.

# Sesiwn Dau

### Adolygu ymchwil a chytuno ar bwyntiau ar gyfer pob siaradwr

**Mae timau'n edrych dros y pwyntiau a ddatblygwyd o'r ymchwil yn y sesiwn flaenorol**. Mae angen iddynt drafod strategaeth, gan ystyried **rôl a threfn pob siaradwr (gweler isod)** a faint o amser sydd ganddynt i gyflwyno eu dadleuon. Dylent benderfynu pa bwyntiau, ffeithiau neu dystiolaeth a fydd yn cael eu cyflwyno gan eu siaradwyr cyntaf, ail a thrydydd. Dylai siaradwyr gofio, wrth i'r ddadl fynd rhagddi, bod angen iddynt ymateb i bwyntiau a wnaed gan siaradwyr y tîm arall. Yn ystod y ddadl fyw efallai y bydd angen gwneud rhai pwyntiau yn gynt neu'n hwyrach na'r hyn a gynlluniwyd mewn ymateb i ddadleuon y tîm arall.

### Rôl a threfn pob siaradwr

Mae timau'n dewis tri siaradwr. Efallai y bydd dysgwyr yn dymuno gwirfoddoli. Os oes mwy na thri gwirfoddolwr fesul tîm, gall eu henwau 'fynd i mewn i het' a chael eu dewis ar hap. Os nad oes gwirfoddolwyr, neu lai na chwech, dylai'r athro ddewis y siaradwyr.



**Tîm A – Siaradwr 1 – y siaradwr cyntaf sy'n cefnogi'r cynnig**

- Mae'r siaradwr cyntaf ar gyfer Tîm A yn rhoi trosolwg o'r cynnig a pham ei fod yn bwysig.
- Mae'n darparu diffiniad ei dîm o'r termau o fewn y cynnig.
- Mae'n cyflwyno achos ei dîm ac yn rhoi amlinelliad byr o'r hyn y bydd pob siaradwr yn y tîm yn siarad amdano.
- Yna maent yn cyflwyno eu rhan o'r ddadl.

**Tîm B – Siaradwr 1 – y siaradwr cyntaf sy'n gwrthwynebu'r cynnig**

- Mae'r siaradwr cyntaf ar gyfer Tîm B yn herio'r pwyntiau a wnaed gan Siaradwr 1, Tîm A. Gall ddechrau drwy ddweud a yw'n cytuno neu'n anghytuno â'r diffiniadau yn y cynnig a gyflwynwyd gan Siaradwr 1, Tîm A. Os yw'n anghytuno, dylai ddweud pam a rhoi dewisiadau eraill.
- Dylai amlinellu achos ei dîm a chyflwyno'n gryno'r hyn y bydd pob un o'r siaradwyr yn siarad amdano.
- Yna mae'n gwneud ei bwyntiau ei hun i gefnogi ei ddadl.

### Tîm A – Siaradwr 2 – ail siaradwr sy'n cefnogi'r cynnig

- Mae angen i'r ail siaradwr ar gyfer Tîm A ddadlau pwyntiau a wnaed gan Siaradwr 1, Tîm B.
- Nid oes angen diffinio'r cynnig nac amlinellu achos y tîm, felly mae ganddynt fwy o amser i sefydlu eu dadl.
- Mae angen gwneud ei bwyntiau ei hun i ddatblygu'r achos. Bydd y rhan fwyaf o'r dadleuon i gefnogi'r cynnig yn cael eu gwneud gan y siaradwr hwn.

### Tîm B – Siaradwr 2 – ail siaradwr sy'n gwrthwynebu'r cynnig

- Dylai'r ail siaradwr ar gyfer Tîm B ddarparu gwrth-ddadl i'r pwyntiau a wnaed gan Siaradwr 2, Tîm A.
- Nid oes angen amlinellu achos ei dîm felly dylai ddefnyddio'r amser i ymhelaethu ar ei ddadl a gwneud y mwyaf o bwyntiau i wrthwynebu'r cynnig.

### Tîm A – Siaradwr 3 – trydydd siaradwr sy'n cefnogi'r cynnig

- Mae'r trydydd siaradwr ar gyfer Tîm A nawr yn cael y cyfle i wrthbrofi'r rhan fwyaf o'r pwyntiau y mae'r tîm arall wedi'u gwneud, oherwydd dylai Siaradwr 2, Tîm B fod wedi nodi'r rhain yn ei araith.
- Dyma'r cyfle olaf sydd ganddynt i gynnig dadl i gefnogi'r cynnig.
- Dylai grynhoi'r achos ar gyfer ei dîm.
- Dylai gloi ei araith gyda sylw sy'n gadael argraff ac yn dangos cryfder eu dadl.

### Tîm B – Siaradwr 3 – trydydd siaradwr sy'n gwrthwynebu'r cynnig

- Dylai'r trydydd siaradwr ar gyfer Tîm B roi gwrth-ddadl i'r pwyntiau a wnaed gan Siaradwr 3, Tîm A.
- Dylent dynnu'r pwyntiau a gyflwynwyd gan ei dîm at ei gilydd.
- Mae'r siaradwr hwn yn cloi'r ddadl ac mae yn y sefyllfa unigryw o gael y gair olaf i geisio ennill y ddadl i'w dîm.

## Y ddadl

- Ar wahân i'r cymedrolwr a'r siaradwyr, mae gweddill y dosbarth bellach yn ffurfio'r gynulleidfa. Trwy gydol y ddadl, dylent wrando'n ofalus ar y pwyntiau sy'n cael eu gwneud a gwerthuso pa mor argyhoeddiadol yw dadl pob tîm, waeth pa dîm yr oeddent yn rhan ohono.
- Mae'r cymedrolwr yn agor y ddadl drwy groesawu'r siaradwyr o bob tîm, cyhoeddi'r cynnig a rhoi ei gyflwyniadd byr eu hunan ar y pwnc.
- Mae'r cymedrolwr yn nodi'n gryno'r rheolau sylfaenol ar gyfer y ddadl.
- Mae'r cymedrolwr yn cyflwyno pob siaradwr yn ei dro, gan ddilyn trefn y siaradwyr fel yr amlinellir uchod.
- Tra bod pob siaradwr yn cyflwyno, mae angen i'r cymedrolwr sicrhau bod siaradwyr yn cadw at yr amser, y pwnc ac yn cynnal dadl barchus (fel y disgrifir uchod yn: Dewis cymedrolwr a deall ei rôl).
- Yn ystod y ddadl, gall siaradwyr basio nodiadau i'w cyd-gyflwynwyr i wneud sylwadau ar bwyntiau a wnaed ac addasu eu strategaeth.
- Ar ôl i'r siaradwr olaf siarad, dylai'r cymedrolwr ddiolch i'r rhai a gymerodd ran a datgan bod y ddadl ar ben.

## Trafodaeth yn y dosbarth yn dilyn y ddadl

Yn ystod y drafodaeth, ni ddylai holl aelodau'r dosbarth, gan gynnwys y siaradwyr, gael eu dylanwadu mwyach gan y tîm yr oeddent ynddo. Dylent fynegi eu barn bersonol eu hunain.

Gellir defnyddio'r canlynol i lywio'r drafodaeth:

- Beth ydych chi'n meddwl oedd y pwyntiau mwyaf perswadiol a gyflwynodd y siaradwyr?
- Pam oeddech chi'n teimlo eu bod yn fwy perswadiol nag eraill?
- Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â dewisiadau eich gilydd?
- A oedd y ffordd y cyflwynodd siaradwr unrhyw bwynt penodol yn effeithio ar sut wnaethoch chi ymateb iddo?
- Pleidleisiwch fel dosbarth ynghylch a yw dysgwyr yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig (nid oes rhaid iddynt bleidleisio dros y safbwynt a gyflwynwyd gan eu tîm).
- A yw safbwynt unrhyw un wedi newid yn dilyn y ddadl?
- Ydych chi'n teimlo'n fwy hyderus a gwybodus i drafod y pwnc hwn gyda rhieni/teulu/ffrindiau yn y dyfodol?
- Ydych chi'n meddwl y byddai cael dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau yn helpu pobl i ddod o hyd i dir cyffredin ar hyn neu bynciau eraill y tu allan i'r ystafell ddosbarth?


**Gorffennwch y sesiwn gyda chrynodeb byr o'r pwyntiau a wnaed a rhowch rai sylwadau i gloi.**



# Iddyn Nhw
# It's for Them




# Iddyn Nhw
# It's for Them




# Iddyn Nhw
# It's for Them



# Iddyn Nhw
# It's for Them






# Iddyn Nhw
# It's for Them



# Iddyn Nhw
# It's for Them




Iddyn Nhw




It's for Them


Iddyn Nhw




It's for Them





Crëwyd gan / Designed by:




Crëwyd gan / Designed by:


Iddyn Nhw
It's for Them


Iddyn Nhw
It's for Them



Crëwyd gan / Designed by:



Crëwyd gan / Designed by:

# Cardiau fflach ar gyfer cynnal dadl

**Pwyntiau sy'n cefnogi ardaloedd gwyrdd yn bod yn fwy gwyllt**

| | | |
|---|---|---|
| Gall y gair 'amgylchedd' gynnwys lleoedd lle mae pobl yn byw ond mae'r amgylchedd 'naturiol' yn cynnwys lle mae anifeiliaid a phlanhigion yn byw. | Mae bod yn 'dwt ac yn daclus' yn gadael fawr ddim cynefin i blanhigion ac anifeiliaid, ac nid yw'n dangos gofal am fyd natur. | Nid yw bod yn 'dwt ac yn daclus' yn caniatáu i flodau gwyllt dyfu. |
| Ledled y wlad, mae gwahanol flodau gwyllt yn tyfu mewn gwahanol ardaloedd. Mae caniatáu iddynt dyfu yn rhoi cymeriad mwy lleol i leoedd. | Mae glaswellt hir tebyg i ddôl yn cefnogi bywyd gwyllt, sy'n bwysig gan ein bod mewn argyfwng natur. | Mae llawer o gynefinoedd dolydd yng nghefn gwlad wedi cael eu colli ers canol yr 20fed ganrif. |

Mae parciau wedi'u cynllunio er mwyn i bobl gael mannau awyr agored, ond nid oes rhaid iddynt fod ar gyfer hamdden yn unig.

Mae ardaloedd sy'n debyg i ddôl yn rhoi cyfleoedd i bobl fwynhau natur, arsylwi ar blanhigion, anifeiliaid a'r tymhorau sy'n newid.

Gall cysylltu â bywyd gwyllt fod o fudd i iechyd a lles meddwl pobl, gan wneud iddynt deimlo'n dawelach eu meddwl, yn hapusach a rhoi mwy o ffocws iddynt.

Pan fydd gwenyn mêl a chacwn yn brysur yn chwilio am neithdar neu baill, anaml y maent yn pigo oni bai eu bod dan fygythiad neu fod tarfu ar eu nyth/cwch gwenyn.

Mae torri llwybrau drwy laswellt hir yn helpu pobl i gerdded drwy ardaloedd glaswelltog.

Mewn dolydd, mae torri stribedi cul ar hyd ymyl llwybrau troed caled yn cadw'r llwybrau'n glir.

Mae torri llwybrau a stribedi cul yn dangos bod ardal yn derbyn gofal a bod glaswellt hirach yn cael ei adael am reswm.

Mae yn erbyn y gyfraith i rywun adael baw cŵn mewn mannau cyhoeddus. Dylai perchnogion cŵn godi'r holl faw waeth beth fo uchder y glaswellt. Mae hefyd yn drosedd i ollwng sbwriel.

Lle gallai glaswellt hir fod yn berygl tân, gellir ei dorri yn gynharach yn yr haf a mynd â'r glaswellt sydd wedi'i dorri i ffwrdd neu ei gadw'n fyrrach i adael i flodau bach dyfu.

Mae dolydd blodau gwyllt gyda gwreiddiau dwfn yn gallu gwrthsefyll tân yn fwy na glaswellt hir.

Ar ddiwedd yr haf, mae planhigion yn rhoi egni i wneud hadau ar gyfer blodau gwyllt y flwyddyn nesaf. Mae'r ardaloedd hyn yn dal i ddarparu lloches a bwyd i fywyd gwyllt.

Weithiau mae cymysgeddau o hadau blodau sy'n cael eu plannu bob blwyddyn (cymysgeddau hadau unflwydd) yn cael eu galw'n 'flodau gwyllt' ond yn aml nid ydynt yn flodau gwyllt brodorol sydd fel arfer yn tyfu yng Nghymru.

Mae cymysgeddau hadau unflwydd yn gwneud fawr ddim i helpu i warchod ein blodau gwyllt brodorol. Gallant fod yn ddrud i'w prynu ac mae angen gwaith i'w cynnal.

Mae arwyddion a gwybodaeth yn helpu i esbonio pam mae glaswellt yn cael ei adael i dyfu.

Mae cynnwys pobl leol yn cynyddu eu dealltwriaeth o ran sut y gallant helpu bywyd gwyllt.

**Pwyntiau sy'n cefnogi ardaloedd gwyrdd yn bod yn llai gwyllt**

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r amgylchedd mewn trefi a dinasoedd wedi'i gynllunio ar gyfer pobl. | Mae cynefinoedd yng nghefn gwlad yn darparu cartref i fywyd gwyllt. | Mewn dinasoedd a threfi, mae lle cyfyngedig i bobl fwynhau'r awyr agored a chwarae. |
| Mae pobl yn mynd i barciau i ymlacio. Os yw'r parc yn edrych yn anniben, ni fyddant yn ei fwynhau gymaint. | Mae ardaloedd glaswellt byr yn bwysig i bobl chwarae chwaraeon tîm, cadw'n heini a chwrdd â phobl eraill. | Mae torri'r glaswellt bob ychydig o wythnosau yn caniatáu i bobl ddefnyddio caeau chwaraeon hamdden ac ardaloedd chwarae. |

| | | |
|---|---|---|
| Mae torri'r glaswellt ar gaeau chwaraeon bob 4-6 wythnos yn caniatáu i flodau byr fel llygad y dydd dyfu a gall pobl barhau i'w defnyddio. | Mae ardaloedd glaswelltog hir yn anodd i bobl deithio ar eu traws, yn enwedig os yw hi'n wlyb. | Mae rhai pobl yn cerdded i'r gwaith neu'r ysgol drwy barciau neu ardaloedd glaswelltog. Os nad yw'r glaswellt yn cael ei gadw'n fyr, mae'n anoddach cymryd y llwybr hwnnw. |
| Mae cael mwy o flodau yn denu mwy o wenyn ac mae gan rai pobl alergedd i bigiadau gwenyn. | Mae rhai pobl yn meddwl bod glaswellt byr yn gwneud i barciau edrych yn brydferth ac wedi'u cadw'n dda. | Mae glaswellt mewn mannau gwyrdd fel parciau wedi'i dorri'n hanesyddol i adlewyrchu dyluniad gwreiddiol y parc. |
| Mae pobl wedi arfer â pharciau â glaswellt byr ac maen nhw'n hapus â'r hyn maen nhw'n gyfarwydd ag ef. | Gall peidio â thorri'r glaswellt wneud i bobl deimlo'n anghyfforddus oherwydd nad dyna y maen nhw wedi arfer ag ef. | Mae cadw ardaloedd yn 'dwt ac yn daclus' yn dangos bod ardal yn cael ei rheoli ac mae'n teimlo fel ei bod yn derbyn gofal. |

| | | |
|---|---|---|
| Gall glaswellt hir guddio sbwriel a baw cŵn. | Mewn rhai ardaloedd, gall glaswellt hir fod yn berygl tân. | Gall gadael glaswellt a dorrwyd ar y ddaear fod yn berygl tân mawr mewn tywydd sych yn ystod yr haf. |
| Ar ôl y tymor blodeuo, mae ardaloedd yn dechrau edrych yn flinedig ac yn anniben. | Efallai na fydd pobl eisiau aros sawl blwyddyn i flodau gwyllt gynyddu'n naturiol drwy dorri a chael gwared ar y glaswellt ar ddiwedd yr haf. | Gall prynu a hau cymysgedd o hadau blodau bob blwyddyn (cymysgeddau hadau unflwydd) wneud i ardaloedd edrych yn lliwgar ac yn hardd. |
| Dylai pobl allu penderfynu sut mae eu hamgylchedd lleol yn edrych. | Mae'n bwysig trafod newidiadau i dorri glaswellt gyda phobl sy'n byw yn yr ardal fel y gallant gael dweud eu dweud. | Dylai fod cydbwysedd rhwng yr hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer ardaloedd glaswelltog a'r hyn sydd orau ar gyfer bywyd gwyllt. |

# Allech chi newid y ffordd rydych chi'n torri'r glaswellt mewn rhai ardaloedd yn eich ysgol

Mae yna gymorth i ysgolion i helpu pryfed peillio a mathau eraill o fywyd gwyllt. Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yw menter Llywodraeth Cymru i greu natur ar garreg eich drws. Mae'n helpu sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, i newid eu harferion torri gwair ac ehangu'r ardaloedd lle gallant wella bioamrywiaeth.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch cydlynydd Partneriaeth Natur Lleol sydd â gwybodaeth ac arbenigedd gwerthfawr. Gall roi cyngor ar sut i gynyddu natur yn eich ysgol.

Mae'r cynllun Caru Gwenyn yn annog ysgolion a chymunedau i weithredu i helpu pob pryf peillio. Mae wedi'i rannu'n bedair thema.

### Dyma'r pedair thema:

- Bwyd – darparu ffynonellau bwyd sy'n ystyriol o bryfed peillio yn eich ardal.
- Llety pum seren – darparu lleoedd i bryfed peillio fyw.
- Rhydd rhag plaladdwyr (mae hyn yn cynnwys pryfladdwyr a chwynladdwyr) – ymrwymo i osgoi cemegion sy'n niweidio pryfed peillio.
- Hwyl – cynnwys yr holl gymuned a dweud wrth bobl pam eich bod yn helpu pryfed peillio.

Mae torri glaswellt yn llai aml yn darparu bwyd a lloches i bryfed peillio ac mae'n weithred a fydd yn eich helpu i fodloni dwy thema gyntaf Caru Gwenyn. Trowch i Caru Gwenyn – Canllaw Gweithredu i weld pa gamau eraill y gallwch chi eu cymryd i wneud ein byd fymryn yn well. Mae gan dudalen we Caru Gwenyn ddeunyddiau defnyddiol eraill hefyd, fel: rhestr o blanhigion, llyfryn plannu ar gyfer pryfed peillio (sy'n cynnwys adran ar dorri glaswellt yn llai aml ar dudalennau 21-23), posteri ac astudiaethau achos a fydd, gobeithio, yn eich ysbrydoli. Efallai y byddwch chi am i'ch dosbarth weithio tuag at wobr Caru Gwenyn. Rhannwch y pedair thema wahanol gyda nhw a thrafod pa gamau yr hoffent eu cymryd.

Gallwch gynnwys unrhyw beth rydych chi'n ei wneud i gynyddu'r fioamrywiaeth o gwmpas eich ysgol yn eich cynllun Eco-sgolion fydd yn eich helpu i gadw neu ennill eich Baner Werdd. Nodwch y rhywogaethau rydych yn eu gweld cyn ac ar ôl gwella cynefinoedd pryfed peillio. Mae hynny'n ffordd wych o ddangos yr effaith bositif y gallwch ei chael. Am dempled ar gyfer cynllun gweithredu ac adnoddau defnyddiol eraill, ewch i Pecynnau Gardd – Cadwch Gymru'n Daclus – Eco-Sgolion.

# Dolenni defnyddiol:

Buglife Cymru – Awgrymiadau Anhygoel are gyfer Peillwyr: www.cdn.buglife.org.uk/2020/10/Top-Tips-For-Pollinators-Welsh-Version.pdf

Syniadau celf a gwneud masgiau: www.pontcymru.org/cy/dolau-dyfi/arts-activities/

Cynllun Monitro Peillwyr y DU (PoMS): Cyfrif Blodau-Pryfed wedi ei Amseru (Cyfrif FIT): www.ukpoms.org.uk/cy/fit-counts

Plantlife Cymru – Cyfeillion yn y Caeau: www.biodiversitywales.org.uk/File/926/cy-GB

Plantlife Cymru – Pryfeteg i Ddechreuwyr: www.biodiversitywales.org.uk/File/927/cy-GB

Taflen Tiwnio i Mewn gan In Our Nature CIC: www.static1.squarespace.com/static/5d6af7ce248be40001dd08c0/t/67f934d3242a6026d895d241/1744385241340/Tuning+In+Booklet+HQ+Spread+WELSH.pdf

Ymgyrch Iddyn nhw: pecyn cymorth i randdeiliaid: www.llyw.cymru/iddyn-nhw-pecyn-cymorth-i-randdeiliad

Natur wyllt: www.monlife.co.uk/cy/outdoor/green-infrastructure/nature-isnt-neat/

Manylion cyswllt Cydlynwyr Partneriaeth Natur Leol: www.biodiversitywales.org.uk/Lleol-i-chi

Cynllun Caru Gwenyn: www.biodiversitywales.org.uk/Caru-Gwenyn

Canllaw Gweithredu Caru Gwenyn: www.biodiversitywales.org.uk/File/264/cy-GB

Plannu ar gyfer pryfed peillio: www.biodiversitywales.org.uk/File/809/cy-GB

Ymylon ffyrdd a glaswelltiroedd amwynder sy'n cynnal bywyd gwyllt:
www.llyw.cymru/ymylon-ffyrdd-glaswelltiroedd-amwynder-syn-cynnal-bywyd-gwyllt

# Cydnabyddiaethau

Diolch yn fawr i Daisy Moss, Owen Moss ac Idris Leeming-Hicks am eu cyngor gwerthfawr wrth ddylunio'r templedi lliwio.

Diolch hefyd i Chloe Harris ac Aimee Harris am eu hadborth ac am awgrymu cynnwys posau chwilair a chroesair.

Diolch o galon hefyd i gydlynwyr Partneriaeth Natur Leol, swyddogion Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a Cadwch Gymru'n Daclus am eu cyngor wrth ddatblygu'r adnodd addysg hwn.